Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

HYFFORDDWR TGCh

GRADD 8: CYFLOG £30,296 - £31,364

37 AWR YR WYTHNOS

RHIF Y SWYDD: 503265

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi o fewn Adran TGCh, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Mae technoleg yn rhan hanfodol o'r modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei weithgareddau o ddydd i ddydd. P'un a yw'n ymwneud ag ysgogi ein criwiau i ddigwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg hollbwysig, neu gefnogi swyddogaethau cefn swyddfa wrth reoli ein hadnoddau, mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi gweithrediad y Strategaeth TGCh trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol ar gyfer pob agwedd ar TGCh. Byddant yn dylunio ac yn cyflwyno hyfforddiant priodol i staff gan ddefnyddio dulliau cyflwyno amrywiol gan gynnwys ystafell ddosbarth, gweithdai, hyfforddiant un-i-un, e-ddysgu a ddarperir ar unrhyw safle o fewn y Gwasanaeth.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld buddion gweithio gyda ni, ewch at: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/buddion/

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad addas fel yr amlinellir ym Manyleb y Person. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac efallai y bydd yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi. Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 canol dydd, 02/10/2024**.

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi_gwag/ Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol CORE, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Nodwch fydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio; Sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder e-bost yn rheolaidd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG